

Prifysgol y Plant Ar-lein:

Sut ydw i'n ailosod cyfrinair a aeth yn angof gan blentyn?

Pan fydd plentyn yn mewngofnodi am y tro cyntaf, gofynnir iddo osod ei gyfrinair. Fel gweinyddwr gallwch fewngofnodi ac ailosod ei gyfrinair os bydd yn ei anghofio.

Beth fydd ei angen arnoch

Er mwyn ailosod cyfrinair plentyn ar Prifysgol y Plant Ar-lein bydd angen y canlynol arnoch

- Eich manylion mewngofnodi *Prifysgol y Plant Ar-lein*
- Enw llawn y dysgwr



Cam 1


- Ewch i www.childrensuniversity.co.uk a chwiliwch am y gair *Login* ar y dde uchaf. Dewiswch fewngofnodi fel aelod o staff a rhowch eich manylion. Eich cyfeiriad e-bost fydd eich enw defnyddiwr a byddwch wedi gosod eich cyfrinair wrth ddilyn yr awgrymiadau yn yr e-bost croeso a anfonwyd gan eich rheolwr Prifysgol y Plant. Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi, gallwch gysylltu â'ch rheolwr a bydd yn anfon yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i sefydlu eich cyfrif. Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, cliciwch *Forgotten Password* a dilynwch y cyfarwyddiadau.

Cam 2

- Ar eich dangosfwrdd gwelwch *School Children*, cliciwch *All*

Plant yr Ysgol

 Pob un  Mewnforio


 Ychwanegu


Adroddiad Graddio -


Cam 3



- Ar ôl i chi glicio *All*, gwelwch restr o gyfrifon yr holl blant. Yna byddwch yn gallu clicio y botwm glas *Reset Password*

Test Child T.Child.1062 0 27/04/2023

 Cweld oriau

 Golygu

 Ailosod cyfrinair

 Archifo  Dileu

Cam 4.

- Llenwch y ffurflen a phwyswch *Set*. Pan fydd yn gofyn am *Your Current Password* bydd angen i chi roi eich cyfrinair gweinyddol/staff rydych chi'n ei ddefnyddio i fewngofnodi i *Children's University Online*

Eich Cyfrinair Presennol

Cyfrinair newydd y Plentyn

Cadarnhau Cyfrinair newydd y plentyn

Gosod

Mae'n ddrwg gen i, 'dw i ddim yn deall!

- Cysylltwch â'ch rheolwr Prifysgol y Plant neu ein Swyddog Cynhwysiant Digidol Cordelia Howard cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk